OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 2302 (Cy.227)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *am 11:30a.m. ar 5Medi 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *6 Medi 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, gan weithredu ar y cyd wrth ymarfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Teitl, cymhwyso, cychwyn a darfod**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 ac mae'n gymwys i Gymru.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Medi 2002 a bydd ei effaith yn darfod ar 1 Chwefror 2003.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "canolfan gasglu" ("*collecting centre*") yw safle sy'n cael ei ddefnyddio fel canolfan hanner-ffordd ar gyfer derbyn anifeiliaid y bwriedir eu symud i rywle arall ac mae'n cynnwys unrhyw le a ddefnyddir, boed fel marchnad neu fel arall, ar gyfer gwerthu neu fasnachu anifeiliaid ond dim ond os bwriedir i'r anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu neu eu masnachu gael eu cigydda ar unwaith wedi hynny;

(**1**) 1981 p.22*Gweler* adran 86(1) i gael y diffiniadau o "the Ministers". Mewn perthynas â Chymru, trosglwyddwyd pwerau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac i'r graddau yr oedd y pwerau hynny yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, fe'u trosglwyddwyd i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

ystyr "canolfan gynnull" ("*assembly centre*") yw canolfan gynnull a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â rheoliad 12(2) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) 2000(**2**);

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sydd â gofal a rheolaeth dros ddefaid neu eifr, hyd yn oed dros dro ond heb gynnwys unrhyw berson sy'n geidwad ond am ei fod yn cludo'r anifeiliaid;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "dafad" ("*sheep*") yw dafad fyw;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw sefydliad, adeiladwaith neu, yn achos fferm awyr agored, unrhyw le y mae defaid neu eifr yn cael eu dal, eu cadw neu eu trafod ynddo;

ystyr "dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn dod i rym;

ystyr "gafr" ("*goat*") yw gafr fyw;

ystyr "Rheoliadau 2000" ("*the 2000 Regulations*") yw Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000(**3**);

mae i "grŵp meddiannaeth unigol" ("*sole occupancy group*") yr ystyr a roddir iddo yn erthygl 2 o Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**4**);

mae i "lladd-dy" yr ystyr a roddir i "*slaughterhouse*" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cig Ffres (Hylendid ac Archwilio) 1995(**5**);

ystyr "marc diadell" ("*flockmark*") yw'r marc a ddyrennir ar gyfer diadell o ddefaid gan y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "marc dros dro" ("*temporary mark*") yw marc dros dro yn unol ag erthygl 6(11);

ystyr "marc gyr" ("*herdmark*") yw'r marc a ddyrennir ar gyfer gyr o eifr gan y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "Marc X" ("*X Mark*") yw Marc X yn unol ag erthygl 6(1) a (8);

ystyr "rhif daliad" ("*CPH number*") yw'r rhif daliad fferm a neilltuir o dro i dro i unrhyw safle neu ran o unrhyw safle gan y Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "sioe" ("*show*") yw achlysur lle mae anifeiliaid yn cael eu harddangos ond nid yn unig er mwyn eu gwerthu;

ystyr "tir pori dros dro" ("*temporary grazing land*") yw tir y mae defaid yn cael eu symud iddo dros dro er mwyn cael eu bwydo neu eu pori ond nad yw'n rhan o'r daliad lle mae'r defaid yn cael eu cadw fel arfer; ac

ystyr "triniaeth filfeddygol" ("*veterinary treatment*") yw unrhyw driniaeth neu weithdrefn arall sy'n cael ei chyflawni gan filfeddyg neu o dan ei oruchwyliaeth.

(2) Oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn ac mae unrhyw gyfeiriad mewn erthygl at baragraff neu is-baragraff â rhif neu lythyren yn gyfeiriad at y paragraff neu'r is-baragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw neu'r llythyren honno yn yr erthygl honNo.

(**2**) O.S. 2000/1673; y diwygiad perthnasol yw Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Lloegr a Chymru) (Diwygio) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/430 (Cy.52)).
(**3**) O.S. 2000/2335 (Cy. 152) (a ddirymwyd bellach).
(**4**) O.S. 2002/2304 (Cy.229).
(**5**) O.S. 1995/539 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/3189, ac mewn perthynas â Chymru gan O.S. 2000/656, O.S. 2000/2257, O.S. 2001/1508, O.S. 2001/1740, O.S. 2001/1802, O.S. 2001/2627 ac O.S. 2002/129.

**Hysbysu ynglŷn â daliadau lle mae defaid neu eifr yn cael eu cadw**

**3.**—(1) Os, ar ôl y dyddiad perthnasol, y daw person yn geidwad unrhyw ddafad neu afr ar ddaliad, rhaid iddo, o fewn un mis ar ôl iddo ddechrau cadw'r anifail hwnnw, hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig—

(a) o gyfeiriad y daliad;

(b) o enw a chyfeiriad meddiannydd y daliad; ac

(c) a oes defaid neu eifr neu'r ddau yn cael eu cadw fel arfer ar y daliad.

(2) Rhaid i'r ceidwad hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig o unrhyw newid yn y manylion a bennir ym mharagraff (1) o fewn un mis i'r newid hwnnw ddigwydd.

(3) Ar ôl cael hysbysiad o dan y rheoliad hwn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ddarostyngedig i baragraff (4), ddyrannu mewn perthynas â'r daliad farc diadell yn achos defaid neu farc gyr yn achos geifr.

(4) Os lladd-dy neu farchnad yw'r daliad, dim ond pan fydd yn barnu ei bod yn briodol gwneud hynny y mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddyrannu marc diadell neu farc gyr.

**Cofnodion defaid**

**4.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n cadw defaid ar ddaliad (heblaw canolfan gynnull, marchnad, sioe, lladd-dy neu ganolfan gasglu) gofnodi, ar 31 Ionawr ym mhob blwyddyn neu cyn hynny, y nifer o ddefaid ar y daliad hwnnw ar 1 Ionawr yn y flwyddyn honNo.

(2) O fewn 36 awr o symud dafad i ddaliad neu oddi arno, rhaid i'r ceidwad gofnodi—

(a) dyddiad y symudiad;

(b) cyfanswm y defaid a symudwyd;

(c) un o'r marciau canlynol—

(i) y Marc S diweddaraf a ddodwyd ar y ddafad;

(ii) pan nad oes unrhyw Farc S, y Marc Tarddiad neu'r marc a wnaed o dan reoliad 7(5) o Reoliadau 2000;

(iii) pan nad oes unrhyw farc fel a grybwyllwyd yn is-baragraffau (c)(i) neu (ii), y Marc F neu'r Marc R; neu

(iv) y rhif adnabod unigol ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif adnabod unigol;

(ch) yn achos dafad a symudwyd i'r daliad, cyfeiriad y daliad y daeth ohono; yn achos dafad sy'n cael ei symud oddi ar y daliad, cyfeiriad y daliad y mae'n mynd iddo;

(d) yn achos dafad a symudwyd o farchnad, y rhif lot a ddyranwyd yn y farchnad;

(dd) yn achos dafad a symudwyd i sioe neu ohoni, y rhif adnabod unigol ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif adnabod unigol;

(e) yn achos dafad sy'n cael ei symud i ganolfan gynnull, y rhif adnabod unigol (os oes mwy nag un, y rhif adnabod unigol diweddaraf a ddodwyd arni);

(f) yn achos dafad sy'n cael ei symud i gyrchfan y tu allan i Brydain Fawr, un o'r canlynol—

(i) Marc Tarddiad sy'n cynnwys y llythrennau "UK", a'r rhif adnabod unigol,

(ii) Marc F sy'n cynnwys y llythrennau "UK", a'r rhif andabod unigol, neu

(iii) Marc X a'r rhif adnabod unigol; ac

(ff) yn achos hwrdd sydd wedi'i nodi, wedi'i farcio neu wedi'i dagio â rhif adnabod unigol at ddibenion erthygl 3(2)(b)(xviii), 3(3)(ch), 3(3)(e) neu 3(3)(f) o Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002, y rhif adnabod unigol hwnnw ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif hwnnw.

(3) Ni fydd paragraff (2)(c) yn gymwys yn achos dafad—

(a) a symudwyd yn uniongyrchol i ladd-dy;

(b) a symudwyd yn uniongyrchol i farchnad er mwyn ei gwerthu i'w chigydda;

(c) a symudwyd i ganolfan gasglu cyn cael ei symud i ladd-dy; neu

(ch) a ddychwelwyd yn uniongyrchol i ddaliad o farchnad yr oedd wedi'i hanfon iddi er mwyn ei gwerthu i'w chigydda;

ar yr amod bod y ceidwad yn cofnodi'r marc dros dro a ddodwyd ar y ddafad.

(4) Yn achos dafad sy'n cael ei gwerthu heb gael ei symud i ddaliad neu oddi arno, rhaid i'r gwerthwr gofnodi, o fewn 36 awr o'r gwerthiant—

(a) dyddiad y gwerthiant;

(b) y nifer o ddefaid a werthwyd; ac

(c) enw a chyfeiriad y prynwr.

(5) Yn achos dafad sydd wedi'i marcio yn unol ag erthygl 11 neu sydd wedi'i hailfarcio yn unol ag erthygl 13(2)(b) neu (c), rhaid i'r ceidwad, o fewn 36 awr o farcio neu ailfarcio'r ddafad (yn ôl fel y digwydd), gofnodi'r marc diadell defaid newydd a'r un blaenorol, os yw'n hysbys.

(6) Pan fydd ceidwad yn marcio dafad â Marc X, rhaid iddo wneud y canlynol o fewn 36 awr—

(a) os yw'r Marc X yn cael ei ddodi mewn canolfan gynnull, cofnodi'r Marc X a'r rhif adnabod unigol sy'n cael ei ddodi yr un pryd â'r Marc X, a'i groesgyfeirio â'r marc sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(c) ac â'r rhif adnabod unigol sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(e); a

(b) os yw'r Marc X yn cael ei ddodi ar ddaliad heblaw canolfan gynnull, cofnodi'r Marc X a'r rhif adnabod unigol sy'n cael ei ddodi yr un pryd â'r Marc X, a'i groesgyfeirio â'r marc sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(c);

(7) Rhaid i'r person sy'n gwneud cofnod o dan yr erthygl hon gadw'r cofnod am gyfnod o chwe mlynedd.

**Cofnodion geifr**

**5.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n cadw gafr ar ddaliad (heblaw canolfan gynnull, marchnad, sioe, lladd-dy neu ganolfan gasglu) gofnodi, ar 31 Ionawr ym mhob blwyddyn neu cyn hynny, y nifer o eifr ar y daliad hwnnw ar 1 Ionawr yn y flwyddyn honNo.

(2) O fewn 36 awr o symud gafr i ddaliad neu oddi arno, rhaid i'r ceidwad gofnodi—

(a) dyddiad y symudiad;

(b) cyfanswm y geifr a symudwyd;

(c) un o'r marciau canlynol—

(i) y Marc S diweddaraf a ddodwyd ar yr afr;

(ii) pan nad oes unrhyw Farc S, y Marc Tarddiad neu'r marc a wnaed o dan reoliad 7(5) o Reoliadau 2000;

(iii) pan nad oes unrhyw farc a grybwyllir yn is-baragraffau (c)(i) neu (ii), y Marc F neu'r Marc R; neu

(iv) y rhif adnabod unigol ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif adnabod unigol;

(ch) yn achos gafr a symudwyd i'r daliad, cyfeiriad y daliad y daeth ohono; yn achos gafr sy'n cael ei symud oddi ar y daliad, cyfeiriad y daliad y mae'n mynd iddo;

(d) yn achos gafr a symudwyd o farchnad, y rhif lot a ddyranwyd yn y farchnad;

(dd) yn achos gafr a symudwyd i sioe neu ohoni, rhif adnabod unigol yr afr ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif adnabod unigol;

(e) yn achos gafr sy'n cael ei symud i ganolfan gynnull, y rhif adnabod unigol (os oes mwy nag un, y rhif adnabod unigol diweddaraf a ddodwyd);

(f) yn achos gafr sy'n cael ei symud i gyrchfan y tu allan i Brydain Fawr, un o'r canlynol—

(i) Marc Tarddiad sy'n cynnwys y llythrennau "UK", a'r rhif adnabod unigol,

(ii) Marc F sy'n cynnwys y llythrennau "UK", a'r rhif adnabod unigol, neu

(iii) Marc X a'r rhif adnabod unigol; ac

(ff) yn achos gafr sy'n cael ei symud at ddibenion erthygl 3(2)(b)(xix) neu 3(3)(d) o Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002, y rhif adnabod unigol hwnnw ynghyd â'r marc a ddodwyd yr un pryd â'r rhif hwnnw.

(3) Ni fydd paragraff 2(c) yn gymwys yn achos gafr—

(a) a symudwyd yn uniongyrchol i ladd-dy;

(b) a symudwyd yn uniongyrchol i farchnad er mwyn ei gwerthu i'w chigydda;

(c) a symudwyd i ganolfan gasglu cyn cael ei symud i ladd-dy; neu

(ch) a ddychwelwyd yn uniongyrchol i ddaliad o farchnad yr oedd wedi'i hanfon iddi er mwyn ei gwerthu i'w chigydda;

ar yr amod bod y ceidwad yn cofnodi'r marc dros dro a ddodwyd ar yr afr.

(4) Yn achos gafr sy'n cael ei gwerthu heb gael ei symud i ddaliad neu oddi arno, rhaid i'r gwerthwr gofnodi, o fewn 36 awr o'r gwerthiant—

(a) dyddiad y gwerthiant;

(b) y nifer o eifr a werthwyd; ac

(c) enw a chyfeiriad y prynwr.

(5) Yn achos gafr sydd wedi'i marcio yn unol ag erthygl 11 neu wedi'i hailfarcio yn unol ag erthygl 13(2)(b) neu (c), rhaid i'r ceidwad, o fewn 36 awr o farcio neu ailfarcio'r afr (yn ôl fel y digwydd), gofnodi'r marc gyr a'r un blaenorol, os yw'n hysbys.

(6) Pan fydd ceidwad yn marcio gafr â Marc X, rhaid iddo wneud y canlynol o fewn 36 awr—

(a) os yw'r Marc X yn cael ei ddodi mewn canolfan gasglu, cofnodi'r Marc X a'r rhif adnabod unigol sy'n cael ei ddodi yr un pryd â'r Marc X, a'i groesgyfeirio â'r marc sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(c) ac â'r rhif adnabod unigol sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(e); a

(b) os yw'r Marc X yn cael ei ddodi ar ddaliad heblaw canolfan gynnull, cofnodi'r Marc X a'r rhif adnabod unigol sy'n cael ei ddodi yr un pryd â'r Marc X, a'i groesgyfeirio â'r marc sydd wedi'i gofnodi o dan baragraff (2)(c);

(7) Rhaid i'r person sy'n gwneud cofnod o dan yr erthygl hon gadw'r cofnod am gyfnod o chwe blynedd.

**Marciau**

**6.**—(1) Rhaid dodi marc sy'n cael ei ddodi o dan y Gorchymyn hwn (ac eithrio marc dros dro) ar glust yr anifail ar ffurf tag clust neu datŵ .

(2) Rhaid i **dag clust** fod—

(a) wedi'i wneud naill ai o fetel neu o blastig neu o gyfuniad o fetel a phlastig;

(b) yn un na ellir ymyrryd ag ef;